Y Brawd Roger o Taizé: 1915–

Byw bywyd o weddi

Dyfalbarhad / gostyngeiddrwydd

Fyddwch chi'n canu "Dyro Dangnefedd, O Arglwydd" yn yr ysgol, y capel neu'r eglwys? Mae'r geiriau hyn wedi eu trosi i'r Gymraeg o'r iaith Ffrangeg. Byddai criw o bobl ifanc yn dod at ei gilydd i bentref o'r enw Taizé, yn Ffrainc. Roedden nhw'n canu a gweddïo efo'i gilydd. Mae'r stori hon yn sôn am y Brawd Roger a sefydlodd y gymuned yn Taizé.

Pump ar hugain mlwydd oed oedd Roger pan adawodd y Swistir, ei wlad enedigol. Roedd o'n awyddus iawn i godi canolfan, lle byddai pobl yn gallu dod at ei gilydd. Fe ddaeth i bentref Taizé pan oedd yr Ail Ryfel Byd yn ei anterth. Roedd wedi gweld yr hyn oedd rhyfel yn gallu ei wneud i bobl. Roedd y rhyfel wedi creu atgasedd rhwng pobl a phobl, rhwng gwlad a gwlad.

Prynodd hen dŷ yn y pentref. Roedd y tŷ yn agored i bawb. Daeth llawer o lddewon i gyd-fyw â'r Brawd Roger. Roedd y rhain yn cael eu herlid gan y Natsïaid. Byw bywyd syml iawn yr oedd Roger. Roedd o'n byw ar ei ben ei hun – doedd ganddo ddim gwraig. Doedd ganddo chwaith ddim llawer o eiddo. Yn ystod y dydd byddai'n gweddïo llawer iawn. O dipyn i beth, daeth dynion ifanc eraill ato a gofyn,

"Y Brawd Roger, gawn ni ymuno â chi?"

Ateb y Brawd bob tro oedd, "Ydych chi'n barod i fyw bywyd syml ac ydych chi'n barod i weddïo'n gyson yn ystod oriau'r dydd?"

Erbyn 1949 roedd criw o ddynion ifanc wedi dod at ei gilydd i ffurfio cymuned. Nod y gymuned oedd byw er mwyn pobl eraill. Yn araf fe dyfodd y gymuned. Erbyn heddiw, mae yna oddeutu mil o "frodyr" yng nghymuned Taizé. Ond mae'r gymuned hon yn fyd-eang. Bob wythnos bydd pobl ifanc o bob rhan o'r byd yn dod at ei gilydd i Taizé. Dim ond aros dros dro fyddan nhw. Beth sydd yn digwydd yn Taizé heddiw?

Bob dydd bydd y "brodyr" yn arwain y gymuned i gyd mewn gweddi. Bydd hyn yn digwydd dair gwaith y dydd. Fe fyddan nhw yn canu salmau a bydd y Beibl yn cael ei ddarllen mewn gwahanol ieithoedd. Ar ôl darllen rhan o'r Beibl, bydd cyfnod o ddistawrwydd.

Yn y distawrwydd bydd y bobl yn gallu meddwl am yr hyn sydd wedi cael ei ddarllen a hefyd bydd cyfle i weddïo'n ddistaw. Mae Brodyr Taizé wedi ysgrifennu siantiau arbennig. Bydd y rhain yn cael eu canu drosodd a throsodd. Erbyn hyn, mae'r siantiau'n cael eu canu mewn gwahanol ieithoedd ar hyd a lled y byd.

Bob nos Wener bydd gwasanaeth arbennig yn cael ei gynnal o gwmpas y groes. Yn ystod y gwasanaeth hwn bydd pawb yn gweddïo dros y rhai sy'n dioddef tlodi, trais neu anghyfiawnder. Neges fawr y Brawd Roger ydi bod rhaid byw crefydd Iesu yn y gymuned. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i Gristnogion gydweithio a chyd-fyw er mwyn gwella'r byd.

"Gwrando ar lef fy ngweddi pan waeddaf arnat am gymorth."

Salm 28:2

O Arglwydd Grist,
helpa ni i gadw'n hunain mewn symlrwydd
ac mewn llawenydd,
llawenydd y trugarog,
llawenydd cariad brawdol.
Caniatâ, gan wrthod edrych yn ôl,
ac yn llawen mewn diolchgarwch,
na fydd arnom ofn blaenori'r wawr,
i foli,
i fendithio,
ac i ganu i Grist ein Harglwydd.
Amen.

Beth ydi'ch barn chi am gyd-fyw mewn mynachlog neu leiandy?
Onid gwaith Cristnogion ydi byw "yn y byd" yn hytrach nag "o'r byd"?

Y Brawd Roger o Taizé: 1915-